

## Prifysgol Metropolitan Caerdydd

### Datganiad Blynyddol ar Integriti Ymchwil: 2018/19

#### 1. Rhagarweiniad a Chefndir

- 1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn gwbl ymrwymedig i gefnogi integriti ymchwil a rheoli ar y lefelau uchaf ym mhob rhan o weithgaredd ymchwil y Brifysgol. Gan fod Met Caerdydd yn derbyn arian cyhoeddus, mae'n cydnabod mor bwysig yw sicrhau y bydd ei staff a'i myfyrwyr yn cynnal safonau ymarfer, integriti a gonestrwydd academiaidd rhagorol ym mhob elfen o'i hymchwil.
- 1.2 Gan fod Met Caerdydd wedi ymuno â'r Concordat i Gefnogi Integriti Ymchwil, mae'n ymrwymedig i gynnal yr ymrwymadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod camau ar waith i gefnogi safonau uchel integriti ymchwil, mae'r Concordat yn argymhell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu nhw eu hunain sy'n:
  - Rhoi crynodeb o'r camau a'r gweithgareddau a wnaed i gael cefnogi a chryfhau'r ddealltwriaeth a'r defnydd ar faterion sy'n gysylltiedig ag integriti ymchwil;
  - Rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddyn nhw yn eu lle er mwyn delio â honiadau o gamymddwyn yn gadarn, yn deg ac yn drylowy a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
  - Rhoi datganiad uchel ei safon ar unrhyw archwiliadau ffurfiol a wnaed ar gamymddwyn ym maes ymchwil.
- 1.3 Dyma ail ddatganiad blynyddol y Brifysgol ar Integriti Ymchwil ac mae'n ymwneud â'r flwyddyn academiaidd 2018/19. Mae gwybodaeth fanwl ar agwedd gyffredin y Brifysgol tuag at integriti ymchwil a chamymddwyn wrth ymchwilio i'w gweld o fewn Datganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac mae ar gael ar wefan Met Caerdydd<sup>1</sup>.
- 1.4 Yn unol ag argymhellion y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

#### 2. Crynodeb o'r camau a'r gweithgareddau a wnaed i gael cefnogi a chryfhau'r ddealltwriaeth a'r defnydd ar faterion sy'n gysylltiedig ag integriti ymchwil

- 2.1 Mae integriti ymchwil wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Brifysgol yn y flwyddyn academiaidd 2018/19. Ymhlith y gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn mae:
  - O ganlyniad i adolygiad blynyddol o'r ffurflen gais moeseg, gwnaed mân newidiadau er mwyn sicrhau y bydd y ffurflen yn adlewyrchu polisi'r Brifysgol ar waith a fydd yn cynnwys anifeiliaid neu ddeunydd anifail

---

1

[http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual\\_statement\\_on\\_research\\_integrity\\_June18.pdf](http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual_statement_on_research_integrity_June18.pdf)

- Yng ngoleuni gofynion GDPR, ymgwymerwyd ag adolygiad mawr o arferion storio data a oedd yn ymwneud â phrosiectau ymchwil o dan arweiniad myfyrwyr a oedd yn cynnwys cyfranogwyr. O ganlyniad, mae'n ofynnol cadw data ar OneDrive, sef darpariaeth storio'r Brifysgol. Yr unig eithriad i hyn fydd ble y bydd casglu data yn dod o dan brotocolau cadw data cyrff eraill a, bryd hynny, bydd yn ofynnol dangos pa gamau a fydd i'w cymryd. Caiff ffurflen gais moeseg a thaflen wybodaeth cyfranogwyr enghreifftiol eu diwygio i gael adlewyrchu'r newidiadau i'w defnyddio yn y flwyddyn academaidd 2019/20.
- Ymgwymerwyd ag adolygiad o'r arferion yn ymwneud â chydysyniad cyfranogwyr a'r canlyniad oedd cyflwyno proses ffurfiol lle y gall cyfranogwyr dynnu cydsyniad a roddwyd yn flaenorol, yn ôl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth glir i gyfranogwyr ar yr hyn y bydd tynnu cydsyniad yn ôl yn ei olygu'n ymarferol, yn ôl y cyfnod y bydd yr ymchwil wedi'i gyrraedd. Caiff hyn ei lansio o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2019/20.

### **3. Prosesau yn eu lle i gael delio â honiadau o gamymddwyn**

- 3.1 Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil ei adolygu yn 2018/19 ac fe'i cafwyd yn addas i'r diben. Bwriedir adolygu'r Polisi nesaf yn y flwyddyn academaidd 2020/21.

### **4. Datganiad ar unrhyw archwiliad ffurfiol a wnaed yn ymwneud â chamymddwyn ymchwil**

- 4.1 Yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19, galwyd ar Bolisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil mewn cysylltiad ag un honiad o gamymddwyn ymchwil. Tynnwyd yr honiad yn ôl gan yr achwynydd yn ystod cyfnod cychwynnol yr archwiliad.